# Ail-ddychmygu
# Tŷ'r Congo/Y Sefydliad Affricanaidd



## *Prosiect Animeiddio*

Bu'r prosiect **Ailddychmygu Tŷ'r Congo/Y Sefydliad Affricanaidd** yn gweithio gyda phobl o Ogledd Cymru a Chanolbarth Affrica i adrodd stori Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn (1889 - 1912). Bechgyn ifanc oedd y myfyrwyr cyntaf, gyda myfyrwyr hŷn yn cyrraedd yn ddiweddarach.Derbyniodd dair merch addysg lawn yn y Sefydliad hefyd. Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn cymryd rhan weithredol mewn casglu arian drwy ddigwyddiadau cyhoeddus. Prentisiwyd nifer gyda masnachwyr lleol, yn enwedig argraffwyr lle dysgon nhw sut i gynhyrchu eu papur newydd eu hunain. Mae tîm criced y Sefydliad yn un o'r cynharaf y gwyddys amdano yn y byd gyda chwaraewyr Du i gyd.

Bu i Cerdd a Ffilm Gymunedol TAPE hefyd arwain prosiect animeiddiad gyda phlant yn Ysgol y Gogarth ac aelodau o gymuned Bae Colwyn a Matadi i ddod â rhai o straeon y Sefydliad Affricanaidd yn fyw trwy animeiddiad. Gweithiwyd gyda haneswyr lleol, perthnasoedd rhai o'r unigolion cysylltiedig, ac ymgynghorwyr treftadaeth i sicrhau fod y straeon yn cael eu hadrodd yn gywir.

"Roedd yn anrhydedd i TAPE weithio gyda'r gymuned leol i greu'r animeiddiadau hyn. Mae cyfraniad cymaint, gan gynnwys aelodau cymuned allweddol o Matadi [dinas yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo], wedi helpu i wneud hwn yn brofiad anhygoel, bythgofiadwy a gwerth chweil i bawb oedd yn ymwneud â'r prosiect."
- **Elly, Sam a Noah, animeiddwyr yn Cerdd a Ffilm Gymunedol TAPE**



**Crëwyd 2023-2024, gyda chyfraniadau gan Wasanaeth Amgueddfeydd Conwy, Archifau Conwy, Cerdd a Ffilm Gymunedol TAPE, a'r artist Elly Strigner.**

Llywodraeth Cymru Welsh Government
Association of Independent Museums Helping Heritage Organisations Prosper
TAPE Cerdd a Ffilm Cymunedol Community Music & Film
CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY CULTURE CENTRE
CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL